# Amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2024-25

## Copi terfynol: cyflwynwyd ar 31 Hydref 2023

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## Cyflwyniad

Ym mis Awst 2023 fe wnaethon ni gyflwyno drafft cynnar o'n cyllideb ar gyfer 2024-25. Gobeithiwn fod gweld ein hamcangyfrif yn gynnar, a'r diweddariadau wedi hynny, wedi bod o fudd i'ch trafodaethau fel Llywodraeth.

Rydyn ni'n cyflwyno'r amcangyfrif cyllideb terfynol hwn ar gyfer 2024-25 yn unol â'r ddeddfwriaeth a sefydlodd y corff hawliau dynol annibynnol hwn. Rwy'n boenus o ymwybodol o'r pwysau sylweddol ar y pwrs cyhoeddus, yr ansicrwydd mae Llywodraeth Cymru yn ei wynebu ynghylch ei setliad cyllideb, a'r awydd gwirioneddol i sicrhau'r gwerth gorau posib am arian, er mwyn cyflawni gwell cefnogaeth i ddinasyddion Cymru. Am y rhesymau hyn i gyd, fel swyddog cyfrifyddu, rwyf yn gofyn am adnoddau i gynnal sefydliad sefydlog cynaliadwy yn unig, fydd yn addas i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Yn ogystal â'r amcangyfrif cyllideb ei hun, rydyn ni wedi nodi peth o'r cyd-destun, ein rhagdybiaethau gwaith cyfredol ym mis Hydref 2023, a'r risgiau hysbys cysylltiedig.

## Cyd-destun – rhai ffeithiau

1. **Sicrwydd a gafwyd ynghylch ein sefyllfa ariannol a'n llywodraethiant**
   Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi adolygu ein cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn ddiweddar, ac wedi rhoi barn ddiamod i ni arnynt, heb unrhyw bwyntiau rheoli i ni eu gweithredu.
   Mae ein Harchwilwyr Mewnol, TIAA, wedi darparu'r lefel uchaf posibl o sicrwydd ynghylch ein llywodraethiant a'n rheolaeth ariannol yn eu hadroddiad blynyddol diweddaraf.
2. **Cylch Cynllunio Strategol**
   Bu dros 10,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion yn cymryd rhan yn ein hymgynghoriad mwyaf hygyrch hyd yma: Gobeithion i Gymru. Mae eu barn a'u profiadau wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ein cynllun strategol newydd tair blynedd, a byddaf finnau'n atebol i'r miloedd o gyfranogwyr hynny, ac eraill, am gyflawni'n gobeithion yn llwyddiannus.
3. **Sefyllfa Ariannu**
   Er fy mod yn croesawu'r cyfle cynnar i drafod fy ngofynion cyllido gyda Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru, rwy'n cael fy ariannu gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru, ond yn gweithredu'n annibynnol arnynt, ac yn atebol i Brif Weinidog Cymru am y defnydd o'r adnoddau cyhoeddus a ddarparwyd i mi.  Fodd bynnag, effaith Gorchymyn Penderfyniadau Cyllideb a Chyrff Dynodedig 2021 fu cyfyngu ar lefel y gweddill ariannol a gadwyd y gallaf ei ddefnyddio'n annibynnol heb i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllideb adnoddau gyfatebol a, lle bo angen, arian parod. Amlygwyd y cyfyngiad hwn a'r risg yn ddiweddar yn adroddiad ymchwiliad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd, 'Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru'.

   Ni hefyd yw'r swyddfa Comisiynydd sy'n derbyn y lefel isaf o gyllid yng Nghymru, ac nid ydym wedi gofyn am gyllid cyfalaf ychwanegol na chyllid arall (fel y mae ein cymheiriaid) i dalu am seilwaith TG a seiber-wydnwch. Noder ein bod wedi sicrhau achrediad Cyber Essentials Plus yn 2022-23.
4. **Taliadau i staff**
   O'r cychwyn cyntaf, mae'r swyddfa hon wedi seilio'i pholisi cyflogau ar eiddo Llywodraeth Cymru, gan wybod bod hynny wedi'i sefydlu trwy gyd-drafod gydag undebau llafur (rhywbeth nad ydym ni'n ei wneud ein hunain).

5. **Costau cynyddol, yn bennaf yn sgîl costau staff**
Fel pob cyflogwr sector cyhoeddus, mae fy swyddfa wedi wynebu costau staff cynyddol, i raddau helaeth oherwydd cyfraniadau pensiwn uwch, cynnydd incrementaidd yn y bandiau cyflog sy'n adlewyrchu'r rhai yn y gwasanaeth sifil, a'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol – elfennau sy'n gyfangwbl y tu hwnt i'm rheolaeth fel Swyddog Cyfrifyddu.

6. **Strwythur staffio**
Mae'r cyflenwad o staff yn dal yn llai nag yn 2015. Mae'n weithlu sefydlog i raddau helaeth, gyda gweithwyr proffesiynol hynod fedrus a phrofiadol sy'n gallu cyflawni llawer iawn o waith o safon uchel, a hynny'n gyflym.

7. **Cyflawni dros blant a phobl ifanc**
Mae'r sefydliad wedi cyflawni rôl hanfodol ers dros ugain mlynedd yn sefydliad annibynnol ym mywyd sifil Cymru. Mae gan y sefydliad dîm staff diwastraff o 24, a chyllideb sy'n cyfateb i 0.96% o wariant yr is-adran Cyfiawnder Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru (seiliwyd y ffigur ar gyllidebau dangosol 2023-24). Mewn gwerthusiad diweddar o effaith ei waith, daeth y sefydliad i'r casgliad eu bod wedi cyflawni'r holl waith a gynlluniwyd a'r holl waith ychwanegol mewn ymateb i'r pandemig am £315,000, sy'n cyfateb i ryw £0.34 fesul plentyn yng Nghymru.

Mae uchafbwyntiau'r tair blynedd diwethaf yn cynnwys:

- Ymgysylltu'n uniongyrchol â mwy nag 20,000 o blant a phobl ifanc
- Clywed gan fwy na 51,000 o blant trwy arolygon
- Cyflwyno hyfforddiant ar hawliau plant i fwy na 1,000 o weithwyr proffesiynol
- Ymateb i 86 o ymgyngoriadau pwyllgorau Llywodraeth Cymru a'r Senedd
- Sicrhau sylw mewn darllediadau a deunydd a argraffwyd dros 1,500 o weithiau
- Ymdrin â mwy na 1,800 o achosion trwy ein gwasanaeth ymchwiliadau a chyngor
- Cymryd rhan, ar gyfartaledd, mewn 148 o weithgorau.

Gallwch ddarllen mwy am y gwaith yma yn ein Hadroddiad Blynyddol ar ein gwefan.

8. **Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig**
Rydyn ni wedi cael ein derbyn yn un o wyth Cyfranogwr Craidd yn unig ar gyfer Modiwl 2B o Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig, sef yr unig ymchwiliad fydd yn adolygu ymateb Cymru i bandemig Covid-19. Noder mai ni yw'r unig gyfranogwr craidd sy'n cynrychioli barn plant a phobl ifanc. Fel comisiynydd plant annibynnol, rydyn ni'n teimlo ei fod yn hanfodol bwysig i ni chwarae rhan weithredol, arwyddocaol yn yr ymchwiliad, ac i wneud hynny'n effeithiol, buasai angen i ni gomisiynu cefnogaeth tîm cyfreithiol. Byddai gwaith o'r fath yn hanesyddol wedi cael ei ariannu trwy ein cronfa gyffredinol, ond oherwydd cyfyngiadau'r ymarferiad alinio diweddar, mae gofyn bellach ein bod yn gwneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fedru cynrychioli plant a phobl ifanc yn annibynnol yn ymchwiliad y Deyrnas Unedig.

Yn ein Hamcangyfrif Cynnar fe wnaethon ni gynnwys ffigur ar gyfer y costau roedden ni'n eu rhagweld wrth fynychu'r Ymchwiliad, fodd bynnag, trwy drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru mae'r symiau hyn wedi cael eu tynnu allan o'r ddogfen derfynol, gan ein bod wedi cael ein sicrhau y bydd unrhyw gais am arian ychwanegol i dalu am gostau'r ymchwiliad yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

# Rhagdybiaethau gwaith

## Y tu hwnt i'n rheolaeth

- Y bydd chwyddiant yn effeithio ar agweddau allweddol o'n gwariant, gan gynnwys ynni, argraffu a chostau teithio a chynhaliaeth (sylwer nad rhestr hollgynhwysol yw hon);
- Y bydd cynnydd o 5% o leiaf i gyflogau o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog a gyd-drafodwyd;
- Mae newidiadau i gyfraniadau pensiwn cyflogwr sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2024 wedi cael eu cynnwys yn ein hamcangyfrif; ac
- Nid yw newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwr wedi cael eu cynnwys yn ein hamcangyfrif.

## O fewn ein rheolaeth

- Bydd Llywodraeth Cymru yn talu'r costau a ddaw wrth i'r Comisiynydd fynychu Ymchwiliad Covid y Deyrnas Unedig;
- Fyddwn ni ddim yn sicr o'r gofynion gwariant ar brosiecau nes bod ein gwaith cylch cynllunio strategol wedi dod i ben yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, felly mae ein rhagamcan wedi'i seilio ar wariant blaenorol ar brosiectau;
- Byddwn ni'n parhau i adolygu ein strwythur llety a staffio, er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r gwerth gorau posib am y bunt gyhoeddus a thros blant a phobl ifanc;
- Byddwn ni'n parhau i adolygu pob llinell yn ein cyllideb i ganfod arbedion cost posibl ac i sicrhau nad oes gwastraff;
- Byddwn ni'n parhau i gwrdd â phlant a phobl ifanc a gweithio drostyn nhw'n rhithwir ac wyneb yn wyneb, gyda'r cyfyngiadau lleiaf o ran Covid-19;
- Byddwn ni'n parhau i gynnig model gwaith hybrid i'r staff;
- Byddwn ni'n parhau i geisio cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, lle mae modd diogelu ein hannibyniaeth, er lles hawliau dynol plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ymgymryd ag ymarferiadau caffael ar y cyd i fwyafu'r gwerth am y bunt gyhoeddus;
- Byddwn ni'n sicrhau bod ein holl allbynnau fel sefydliad yn cael effaith gadarnhaol ar gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus ac ar fywydau plant yng Nghymru.

# Risgiau hysbys cysylltiedig

Byddai peidio â derbyn y setliad cyllideb y gofynnwyd amdano yn:

- cyfyngu ar allu'r Comisiynydd i bennu rhaglen waith annibynnol sy'n cwmpasu'r holl feysydd sy'n bwysig i blant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw, a chyflawni cylch gorchwyl cyfreithiol y swydd;
- llesteirio capasiti swyddfa'r Comisiynydd i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar ran plant, a chyda'r nod o hybu hawliau plant;
- effeithio'n negyddol ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei Rhaglen Lywodraethu i'r graddau mae hynny'n ymwneud â phlant a phobl ifanc;
- gofyn bod y Comisiynydd yn cynnal ymarferiad ailstrwythuro i gyfyngu ar effaith unrhyw ddiffygion ariannol, a fydd yn golygu bod y Comisiynydd yn gorfod gofyn am arian ychwanegol i dalu am gostau unrhyw raglen hirdymor o ddileu swyddi;
- Yn fyr, nid oes unrhyw beth ar ôl rydyn ni'n gallu ei newid neu dorri'n ôl arno na fyddai'n effeithio ar gyflawni ein gwaith a'r cyngor a'r gefnogaeth rydyn ni'n eu cynnig yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
- Rydyn ni wedi bod yn cydweithio yn ystod blynyddoedd diweddar i geisio sicrhau gwell aliniad rhwng cyllideb y Comisiynydd a gostyngiad yn ein Cronfa Gyffredinol, hyd at y terfyn cytunedig o 5%. Mae hynny'n cyfyngu ar ein

gallu i fod yn hyblyg ac yn annibynnol mewn sefyllfaoedd megis yr un lle cawn ein hunain ynddi, ac felly carem amlygu eto ein pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y mesur parhaus hwn wrth symud ymlaen.

## Amcangyfrif ac amcangyfrif o'r gyllideb ddangosol ar gyfer y tair blynedd nesaf

**Amcangyfrif cyllideb**

| | **Amcangyfrif 2024-25** (£) | **Dangosol 2025-26** (£) | **Dangosol 2026-27** (£) |
|---|---|---|---|
| Cyflogau, gan gynnwys argostau | 1,392,459 | 1,380,577 | 1,398,220 |
| Adeiladau | 41,698 | 42,002 | 42,313 |
| Costau swyddfa | 71,276 | 71,354 | 71,433 |
| Hyfforddiant a llesiant | 23,700 | 23,700 | 23,700 |
| Teithio a chynhaliaeth | 11,000 | 11,000 | 11,000 |
| Ffi archwilio allanol | 20,503 | 20,913 | 21,331 |
| Ffi archwilio mewnol | 13,000 | 13,000 | 13,000 |
| Cyfathrebu | 49,500 | 47,000 | 47,000 |
| TGCh | 53,547 | 53,547 | 53,547 |
| Costau prosiectau | 82,750 | 82,750 | 82,750 |
| Costau cyfreithiol | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| Dibrisio/Amorteiddiad | 51,500 | 51,500 | 51,500 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Adnoddau** | **1,815,933** | **1,778,643** | **1,820,794** |
| **Arian Grant ar ffurf Cymorth** | 1,764,433 | 1,727,143 | 1,769,294 |

# Atodiad

## Rôl a swyddogaethau Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (CPC), a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yn sefydliad hawliau plant annibynnol. Mae fy nghylch gorchwyl wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001, a newidiodd Ddeddf Safonau Gofal 2000. Fy mhrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant. Rhaid mai dyma fy amcan gor-redol wrth gyflawni fy swyddogaethau.

Y diffiniad o blentyn yn Neddf 2000 yw person o dan 18 oed, er fy mod i'n gallu gweithredu pan fydd person ifanc yn hŷn na hyn o dan rai amodau. Er enghraifft, galla i weithredu ar ran person ifanc sydd wedi cael ei roi mewn gofal, ac os oes gan yr awdurdod lleol ddyletswydd barhaus i ofalu amdano/amdani o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Wrth ymarfer fy swyddogaethau, rhaid i mi roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) - siarter ryngwladol sy'n nodi'r isafswm safonau ar gyfer plant a phobl ifanc, ble bynnag maen nhw'n byw. CCUHP yw'r sylfaen ar gyfer fy ngwaith i gyd. Er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cynnal yng Nghymru, galla i adolygu ymarferiad swyddogaethau amrywiol gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru, ac adolygu a monitro'r trefniadau sydd gan rai cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hybu hawliau plant yng nghyswllt delio â chwynion a sylwadau, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn ymateb i ddatgelu camarfer, cynrychioli barn a dymuniadau plant, a rhoi cyngor a chefnogaeth i blant.

Mae fy nghylch gorchwyl yn cwmpasu holl feysydd pwerau datganoledig Senedd Cymru, i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Gallaf hefyd gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar hawliau a lles plant yng Nghymru.

## Trefniadau llywodraethu

Gan fy mod mewn swydd gyhoeddus sy'n derbyn arian cyhoeddus, rwy'n ymroddedig i weithredu systemau trylwyr a thryloyw o ran atebolrwydd a gwneud penderfyniadau. Mae fy fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r sefydliad. Isod ceir disgrifiad o'm strwythur llywodraethu. Mae manylion pellach ynghylch aelodaeth pob grŵp, presenoldeb a'u cylchoedd gorchwyl ar gael ar fy ngwefan.

- **Y Comisiynydd:** corfforaeth un person a swyddog cyfrifyddu.
- **Y Tîm Rheoli**: ei brif ddiben yw darparu cefnogaeth a chyngor i'r Comisiynydd ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu nodau strategol a chynlluniau gwaith blynyddol. Mae'r Tîm hefyd yn gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y sefydliad, ac yn rheoli'r gwaith o redeg y swyddfa o ddydd i ddydd yn unol â gwerthoedd y sefydliad.
- **Paneli Ymgynghorol Pobl Ifanc ac Oedolion y Comisiynydd:** mae'r paneli hyn yn darparu cefnogaeth annibynnol ar ffurf cyngor, craffu a her i'r Comisiynydd a'i staff, er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau statudol y Comisiynydd yn cael eu cyflawni'n effeithiol, a bod ei staff yn gwneud yr un modd yn achos polisïau a chynigion, gan lywio'r polisi a'r blaenoriaethau strategol.
- **Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg:** mae'n cynghori'r Comisiynydd ynghylch y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, a'r gweithgaredd a gynlluniwyd a chanlyniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r aelodau anweithredol hefyd yn darparu her yng nghyswllt fy ngwariant a'm hamcangyfrif.

- **Archwilio Mewnol**: TIAA Ltd sy’n darparu gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer fy swyddfa. Fe’u penodwyd o 1 Ebrill 2021, yn dilyn ymarferiad caffael ar y cyd gan yr Ombwdsmon a swyddfeydd Comisiynwyr eraill. Maent yn gweithredu’n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd, sy’n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad. Yn eu Hadroddiad Blynyddol diweddaraf i mi, daeth TIAA i’r casgliad:
  - *“Mae TIAA wedi’i fodloni bod gan Gomisiynydd Plant Cymru, yn achos y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant rhesymol ac effeithiol yn eu lle. Seiliwyd y farn hon yn unig ar y materion a ddaeth at sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac nid yw’n farn ar bob elfen o’r prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant, na’r dichonoldeb ariannol parhaus, na chwaith eich gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae’n rhaid i Gomisiynydd Plant Cymru ei gyflawni o’r amrywiol ffynonellau sicrwydd.”*
- **Archwilio Allanol**: bob blwyddyn, mae cyfrifon fy sefydliad yn cael eu harchwilio a'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn unol â pharagraff 9 o Atodlen 2 i’r Ddeddf Safonau Gofal. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg ar sefyllfa ariannol y sefydliad. Mae'n ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n ymwneud â'r cyfrifon. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar fy Adroddiad Blynyddol a'm Cyfrifon ar gyfer 2022-23.

DIWEDD